YNYS ENLLI BARDSEY ISLAND

Y Cafn

Ymddiriedolaeth Ynys Enlli Cyf. | www.enlli.org | Gwanwyn 2006

Adnewyddu'r Blanhigfa

Os byddwch yn ymweld yn 2007, edrychwch ar y ffin ogleddol i'r blanhigfa goed. Mi welwch fod 70m o'r ffens derfyn 12m ymhellach allan. Chwistrellwyd y glaswellt hir a phlannwyd llawer o goed bach a llwyni. Mae rhimyn o Gristelina a chonwydd wedi eu plannu fel cysgod a gellir tynnu y rhain oddi yno yn y dyfodol os na fydd eu hangen. Plannwyd y prif ran gyda choed caled, gan gynnwys derw, onnen, llwyfannen, helyg a drain duon. Y bwriad yw creu cynefinoedd newydd i adar a chreaduriaid bach eraill ac i greu cysgod ar gyfer y brif blanhigfa os bydd eisiau ei hadnewyddu yn y dyfodol.

Trafodwyd y prosiect yma am flynyddoedd ond fe'i symbylwyd yn ddiweddar pan ddaeth grantiau ar gael o Natur Gwynedd (i hyrwyddo bioamrywiaeth yng Ngwynedd). Roedd hyn yn talu am ffensio, cludiant a llafur, ond nid am y coed. Gwnaed apêl i aelodau'r Wylfa Adar am arian ac fe alluogodd hynny inni gael coed o feithrinfa'r Dingle, yn y Trallwng, Meithrinfa Coed Glynllifon a phlanhigion ifanc gan Iwan Edgar (aelod o'r Ymddiriedolaeth) a Dafydd Thomas (Swyddog yr Ymddiriedolaeth dros lawer blwyddyn).

Wedi hir oedi oherwydd y tywydd garw, fe aed a'r coed i'r ynys ac fe'u plannwyd gan David Barnden. Gobeithio y bydd y mwyafrif yn ffynnu yn nhywydd garw Enlli.

Cyf.
Geoff Gibbs

Fig 1: coed wedi'w blannu ar Enlli

Byddwch yn Wirfoddolwr

Mae gwirfoddoli yn gyfle i gefnogi Ynys Enlli a gwaith yr Ymddiriedolaeth er mwyn gofalu am y tir ac adeiladau'r ynys weithredol hon ac er mwyn amddiffyn ei bywyd gwyllt a'i harddwch naturiol.

Mae nifer o gyfleon gwahanol i wirfoddoli ar Enlli o arddio, clirio llwybrau, glanhau a gwaith cynnal a chadw syml i waith mwy medrus megis adnewyddu adeiladau. Croesewir ceisiadau gan unigolion, grwpiau a theuleuoedd.

Os ydych yn edrych am ffordd ddiddorol i wneud gwahaniaeth er mwyn gwarchod amgylchedd a threftadaeth Ynys Enlli, beth bynnag yw eich diddordebau neu sgiliau, byddai'r Ymddiriedolaeth yn falch iawn o glywed gennych.

Ymddiriedolaeth Ynys Enlli Cyf. / Bardsey Island Trust Ltd,
Plas Glyn-y-Weddw, Llanbedrog, Gwynedd, LL537TT
Tel: 08458 11 22 33 post@enlli.org www.enlli.org

Beth sy'n gyffrous am y môr o gwmpas Enlli?

Fig 2: Sunfish

Gallech feddwl bod y dyfroedd o gwmpas Cymru yn oer a thywyll ac yn anniddorol, ond ni allai dim fod ymhellach o'r gwir. Mae'r môr yn oer ond mae ynddo amrywiaeth anhygoel o fywyd morwrol. Mae arwynebedd y môr o gwmpas Cymru cymaint ac arwynebedd y tir. Yn ôl ym 1992, cymerodd Prydain ac amryw eraill o gwmpas y byd ran mewn cynhadledd i geisio cynorthwyo ein hadnoddau naturiol. O ganlyniad, a'r gynhadledd yma, penderfynodd Ewrop ddiogelu ein bywyd gwyllt a'n cynefinoedd. I gyflawni hyn, sefydlwyd rhwydwaith o safleodd dros Ewrop gyfan a gelwir y rhain yn Safleodd Arbennig Cadwraeth (SAC). Dynodir SAC os ceir ynddo gynrychiolaeth dda o gynefin neu rywogaethau. Mae yn ardal Pen LlŷN a'r Sarnau ddeuddeg rhywogaeth, yn cynnwys dolffiniaid, dyfrgwn, morloi, ogofau, creigiau tanfor ac aberoedd. Mae'r safle yn cychwyn ym Morfa Nefyn ac yn terfynnu yn Afon Clarach ger Aberystwyth. Felly mae'r dyfroedd o gwmpas Enlli o fewn y safle yma.

Y prif gynefinoedd yn Enlli yw'r creigiau a'r ogofau tanfor. Mae'r ogofau hyn yn llawn o greaduriaid sydd wedi addasu yn berffaith i'n hamgylchedd, e.e. anemoniau llachar a chreaduriaid bach eraill. Gan fod yr arfordiroedd yn dod yn fwy poblogaidd gyda cherddwyr a'u cŵn, mae'r morloi yn hoffi mynd i'r ogofau hynny i gael llonydd a gorffwys. Mae'r creigiau tanfor yn noddfa dda i lawer math o greaduriaid yn amrywio o wymonau i gimichiaid.

Nodwedd arbennig Enlli ydi'r dyfroedd dyfnion sydd o gwmpas yr ynys. Mae'r rhain yn denu dolffiniaid fel y Risso a'r Dolffin Cyffredin, sydd fel arfer yn hoffi dyfroedd dyfnion ymhellach o'r tir. Fel y gwelwch, mae'r dyfroedd yn llawer mwy cyffrous a diddorol nag ymddangosant ar yr olwg gyntaf a thrwy y SAC, gobeithiwn y byddant yn aros felly.

Cyf.

Alison Palmer Hargrave, Swyddog SAC



Fig 3: cuckoo rasse

LAWR AR Y FFERM

Gwelir newidiadau yn Tŷ Pellaf, fferm yr ynys, eleni gan i David a Libby Barnden rhoi'r gorau i'w prydles wedi pedair blynedd ac ymadael â'r ynys i orwelion newydd. Bydd nifer ohonnoch yn adnabod Gareth Roberts o Cwrt sydd bellach yn gofalu am stoc yr ynys tra bod tenantiaeth newydd yn cael ei drefnu.

Daw mwy o newyddion maes o law fel bydd trefniadau newydd yn cael eu cadarnhau.

ARLUNYDD YNYS

BRENDA CHAMBERLAIN (1912 - 71)

O'r ymwelwyr niferus i Enlli, bydd y rhai sydd wedi galw neu aros yn Carreg wedi gweld gwaith gan unigolyn a berthnasai i genhedlaeth hynod o artistiaid ac ysgrifennwyr yng Nghymru. Meddiannau Brenda Chamberlain gyfuniad o dalentau gan fod yn arlunwr ac ysgrifennwr o farddoniaeth a rhyddiaeth.

Yn Amgueddfa ac Oriel Gwynedd, Bangor o Fehehin 28ain hyd at 1af o Fedi eleni gweler ddetholiad o beintiadau ac engrafiadau o bobl gan Brenda Chamberlain. Darperir yr arddangosfa hon gyda chydweithrediad Jill Piercy sydd, dros nifer o flynyddoedd, wedi ymchwilio i fywyd a gwaith Brenda Chamberlain yn ogystal ac iddi fod yn ymwelydd rheolaidd i Enlli.



Fig 4: The Doves gan Brenda Chamberlain

Ganed Brenda Chamberlain ym Mangor yn 1912. Cafodd blentyndod hapus a pan tua chwech oed penderfynodd y byddai am fod yn arlunydd ac ysgrifennwr. Treuliodd pum mlynedd yn Ysgolion yr Academi Frenhinol yn astudio darlunio a pheintio yn y traddodiad academaidd. Dychwelodd i ogledd Cymru yn 1937 i fyw ger Bangor gyda'i gŵr John Petts. Roeddynt yn mwynhau bywyd yn darlunio, peintio ac ysgrifennu. Yn y cyfnod hwn roedd Brenda yn chwilio am ei dull ei hun o beintio er mwyn symyd oddiwrth ei hyfforddiant ffurfiol. Fodd bynnag, pan ddaeth y rhyfel gwelodd nad oedd yn gallu peintioac aeth ati i ysgrifennu barddoniaeth.

Yn dilyn ymweliad drwy hap i Ynys Enlli yn 1946 penderfynodd Brenda ymgartrefu yno gan aros nes 1962. Gadawodd lynoedd a mynyddoedd ardal Bangor am unigrwydd dwys craig-fôr. Roedd ei phriodas erbyn hyn wedi chwalu.

Er gwaethaf caledwch ei bywyd beunyddiol ar yr ynys dechreuodd beintio unwaith eto. Darluniodd fywyd yno, y pysgotwyr, y plant, yr Abaty, pysgod a'r môr. Gellir adnabod llawer o'i pheintiadau o'r cyfnod hwn oherwydd yr amlinelliad bendant, lliwiau cryfion a ffigyrau cerfluniol fel a welir yn 'Plant yn Chwarae ar Balmant'*(1951).* Ennillodd y darlun 'Plant Cristin' iddi Fedal Aur yr Eisteddfod Genedlaethol yn 1953. 'Roedd eisioes wedi ennill Medal Aur yn 1952 gyda 'Merch a Chath Siam'.

O 1951 ymlaen treuliai Brenda y gaeaf i ffwrdd o Enlli gyda hen gyfaill a'i deulu yn yr Almaen ple byddai'n darlunio nifer o bortreadau o'r plant. Y pryd yma hefyd aethai i Ffrainc ar wyliau ac i beintio.

Gwnaed y peintiadau ar Enlli yn aml mewn amgylchiadau anodd a maent yn atsain yr elfennau o natur hynny sydd yn ran mawr o'i gwaith. Ysgrifennodd *"'Roedd yn chwythu grym 11 o ogledd-gorllewin. Rhoddais ganfas bychan ar y pentan lechen, ar y bachyn lle rhoddaf fy mhaderau. Ar y diwrnod erchyll hwnnw teimlai fel y man mwyaf diogel i beintio".*

Mae'r gweithiau diweddarach ar Enlli yn newid arddull, yn seiliedig ar thema 'môr-newid', daethant yn fwy haniaethol ac atmosfferig.

Rhoddai'r blynyddoedd o fyw ar ynys fechan, bron yn gyson yng ngolwg dŵr heli, i Brenda ystyriaeth arbennig i edrychiad y môr ac i'w ddirgelwch.



Fig 5: gwaith gan Brenda ar wal Carreg

Yn 1958 cyhoeddwyd llyfr o gerddi 'The Green Heart' ac yn 1962 'Tide-Race', llyfr Brenda yn seiliedig ar ei bywyd ar Enlli. Yn Hydref o'r un flwyddyn fe aeth ar wyliau moduro o'r Swistir i Athen. Y flwyddyn canlynol dychwelodd i Groeg i fyw am y pum mlynedd nesaf ar ynys Hydra. Ysgrifennodd ei thrydydd llyfr 'The Rope of Vines' a dechrau cyfuno gair a delwedd fel yn ei llyfr 'Poems with Drawings'. Magodd ei gwaith ar y pryd ryddid ac asbri yn rhannol haniaethol ac yn seiliedig ar themâu ynysoedd, creigiau a cherrig.

Yn 1968 dychwelodd Brenda i Lundain gyda'r holl waith o Groeg ar gyfer arddangosfa yno ond fe gaewyd yr oriel cyn gallu dangos y gwaith. Roedd hyn yn ergyd i Brenda a ddychwelodd, yn flinedig ac isel ei ysbryd, unwaith eto i Fangor.

Llwyfanwyd ei drama 'The Protagonists' ym Mangor ac yn 1969 cyhoeddwyd ei llyfr 'Poems with Drawings'. Daeth ei gwaith yn fwy garw – rhai gyda peth hiwmor ond mwy gyda tristwch a galar. Fe ddangoswyd y darluniau olaf hyn yng Ngregynog yn 1971. Yng Ngorffennaf y flwyddyn honno fu Brenda Chamberlain farw.

I weld detholiad o waith gan Brenda Chamberlain ac am oriau agor yr oriel cysylltwch ag **Amgueddfa ac Oriel Gwynedd, Bangor 01248 353 368**.

Delyth Gordon

O'r archifau…

O'r North Wales Chronicle 21 Medi 1928
Chwaraeon ar Enlli: Cyflwyno pel droed ir ynys

Mae bywyd ar Ynys Enlli, ynys gyfanheddol lleiaf Prydain yn dod yn fodern. Mae chwaraeon yn cael eu cyflwyno i'r ynys a chwaraewyd gem bel droed echddoe am y tro cyntaf. Roedd ceidwad y goleudy a pheiriannwyr oedd yn gosod y corn niwl wedi herio criw y 'beacon', llong o Gaergybi a chriw llong bysgota, 'Kathleen' (Capten F.Wright, Pwllheli), oedd yn cludo peiriannau ac offer i'r ynys. Meurig Jones, ymwelwr o Bwllheli oedd y dyfarnwr. Wedi gêm galed tim y llonwgyr a orfu o ddwy gôl i un.

Pan welodd Love Pritchard cyn 'frenin' Enlli gêm o bel droed ym Mhwllheli am y tro cyntaf yn ei fywyd, roedd yn anghymeradwyo'r gêm gan ddweud y dylai'r chwaraewyr gael eu cosbi am daflu ei gilydd i'r llawr mewn modd mor wirion. Pa un ai gwrthwynebiad yr hen 'Frenin' i chwaraeon neu bwysigrwydd cynaeafu'r ŷd, aeth trigolion yr ynys ymlaen a'r cynhaeaf ac ni fynychodd yr un ohonoynt y gêm.

Cyf.

Trwy ganiatad Gwasanaeth Archifau Gwynedd

Cwch i Enlli - trefniadau newydd

Ar gyfer tymor 2007 gofynnir i ymwelwyr i Enlli fod yn ymwybodol o drefniadau newydd ar gyfer croesi i'r Ynys. Bydd ymwelwyr wythnos yn teithio gyda Colin Evans ar fwrdd y Maria Stella / Benlli II o Borth Meudwy yn unig. Trosglwyddir bagiau a nwyddau o Cwrt i'r gwch yn ôl yr arfer. Prynnir tocyn cwch drwy swyddfa'r Ymddiriedolaeth ffôn 08458 112233 neu post@enlli.org pan yn cadarnhau llogi eich tŷ.

Bydd ymwelwyr dydd yn teithio gyda Tony Bruce o Bwllheli neu Borth Meudwy ar fwrdd yr Highlander II. Prynnir tocyn dydd drwy ffonio yn uniongyrchol ar 07814 128620 / 08458 1136 554

Edrych yn ôl ar fy mlwyddyn yr ynys enigmatig hon

Nawr, wedi imi gael fy nhymor prawf drosodd, mae'n amser imi adlewyrchu ar y flwyddyn a'I digwyddiadau, rhai yn hapus ac yn rhoi boddhad, ond weithiau amserau o flinder a thrallod.

Wrth ddarllen drwy'r tair tudalen o ddisgrifad swydd (oedd yn cynnwys y frawddeg 'a chant a mil o bethau eraill') dylaswn fod wedi bod yn amheus ond roedd y cyfle o gael gweithio a byw ar yr ynys, sydd mor arbennig yn hanes a thraddodiadau Cymru yn cymylu fy marn gwrthrychol. Pan wnaed trefniadau i fynd drosodd i'r ynys, dywedwyd wrthyf 'dewch a'ch welis'. Roed y lon I fyny'r ynys yn sych a llychlyd(yn lonawr!). Mae'n lle arbennig iawn, medde nhw, 'dydi hi byth bron yn rhewi nac yn mynd yn wirioneddol oer.' Paradwys, meddyliais. Prin y medrwn aros i fynd adref i ysgrifennu fy llythyr yn derbyn y swydd.

Pan adewais Saudi Arabia mi gymerodd wythnos gyfan imi gael fy eiddo i'r tŷ yn Ninbych. Cymerodd ddeg diwrnod i drosgwlwyddo fy mhethau o Abu Dhabi. O Ddinbych i Enlli, mi gymerodd fis – tywydd garw – ac i'm cael i ar draws, wythnos arall. Ac roedd y croesi yn egr, dros donnau mawrion a chael fy nglychu yn wlyb diferol. A ble oedd fy welis? Wedi ei bacio yn ddiogel mewn bocsys!

Yn croesi efo ni y diwrnod hwnnw oedd Jo Jones, Jenny a'r genethod, wedi gwirfoddoli i baratoi'r tai erbyn y tymor newydd. Roedd yn un o wyrthiau Enlli. Ble faswn i hebddyn nhw? Roedd yn rhaid iddyn nhw drefnu drostynt eu hunain a dod o hyd i bopeth oedd arnynt ei angen, oherwydd wyddwn i ddim lle oedd dim byd, hyd yn oed enwau'r tai am y dyddiau cyntaf. Fel y bu ffawd (os mai dyma oedd), y gwaethygodd y tywydd – bu hyd yn oed yn bwrw cenllysg – felly erbyn bod modd iddynt adael, roeddan nhw wedi tacluso'r tai a'u cael i gyd yn barod ac eithrio Plas.

Ac felly yr aeth y flwyddyn rhagddi. Cyfnodau o dywydd tawel a heulog, gydag ymwelwyr bodlon a llawen; tywydd tymhestlog a dim cwch. Pan ddeffrois ganol nos un dydd Gwener gan sŵn y gwynt yn y ffenestri, gwyddwn mai dyma ddiwedd cwsg i mi, oherwydd byddai'n rhaid mynd o gwmpas tai yn y bore gyda'r newydd da na fyddai cwch heddiw.

Wedyn mae'r cwynion yn dechrau. 'mae glaw yn pistyllio drwy'r ffenestri', 'mae'r gwresogyddion yma'n ddiwerth', 'mae'r papur tŷ bach yn wlyb, rydan ni isio peth newydd, heblaw hynny mae'n afiach o gael cymaint o ddrafft yn dod i fyny'r drwy'r set''. Dylai hyn i gyd fod wedi ei wneud y llynedd!'. Ac os digwydd i bopeth yn y tŷ fod yn iawn, 'dydi'r ffôn ddim yn gweithio'.

Mae pethe rhyfedd yn digwydd ar noson boeth o haf weithiau. Gall treulio'r noson ar y mynydd fod yn rhamantus, medde nhw, ond roedd neb yn barod i gael eu cadw'n effro gan sŵn drymio brawychus. Daeth cysur y bore wedyn pan ddeallwyd mai'r sŵn a glywsant oedd pobl Aberdaron yn cael 'rave'.

Felly, dyna rhyw flas bach o fy mlwyddyn bleserus yn llawn digwyddiadau. Llwyddais i wneud y 'cant a mil' o bethau eraill oedd yn fy nisgrifiad gwaith a rhai o'r pethau penodol a ddisgwylir imi eu gwneud.

Bu rhai digwyddiadau nodedig sydd yn eu ffordd eu hunain wedi ychwanegu at y mosaig sy'n llunio hanes Enlli. Ar y 5 Gorffennaf, croesodd cwch newydd Colin drosodd I'r ynys am y tro cyntaf. Atgyweiriwyd cloch y capel a chafodd ei hongian yn ôl gan Dic a Llew ym mis Awst. Gadawodd Patrick a Gwyneth yn yr Hydref a bydd Dave a Libby yn gadael cyn bo hir.

Mae un peth sydd wedi rhoi nosweithiau di-gwsg imi na soniwyd amdano cyn imi ddod. Dywedodd Dic wrthyf am edrych ar y ffynnon bob dydd yn ystod Gorffennaf ac Awst, rhag ofn iddi sychu. Ni sylwais arno'n cilwenu. Cedwais at ei orchymyn i'r llythyren, gan hyd yn oed glirio llwybr at y ffynnon i wneud y gwaith yn haws. Wel, fe gefais y frech goch a brech yr ieir pan oeddwn yn ifanc, ond coeliwch fi, doedden

nhw'n ddim i gymharu â'r hon a ddioddefais pan i mi edrych ar y ffynnon. Roedd gan Ardd Eden neidr: mae gan Enlli ei phryfed rhedyn! Yn ol y meddyg, y peth gorau rhagddynt ydi 'calamine lotion' wedi ei gymysgu a past dannedd mintys. Os bydd rhywun am roi cynnig ar hyn, gadewch imi wybod – oherwydd byddaf ar fy ngwyliau o'r cyntaf o Orffennaf tan ddiwedd Hydref. O! cofiwch ddweud wrth y rhai sy'n cael ei cosi nad oes chwain yn y gwelyau.

Hoffwn ddiolch i chi i gyd a fu'n aros efo ni y llynedd. Os gwelwch yn dda, dewch eto a dowch a'ch ffrindiau efo chi. Cant brofiad na wnant byth ei anghofio. Diolch hefyd i'r oll o aelodau'r Ymddirideolaeth am eich cefnogaeth , ac yn arbennig i'r rhai hynny fu'n helpu ar Sadyrnau. Heb anghofio dynion y cychod. Buasai bron yn amhosibl i fyw yma hebddynt.

Yn olaf, redden nhw'n dweud nad oed hi byth yn mynd yn oer iawn ar Enlli. Rhewodd y llyn drosto a chafwyd gorchudd o eira yn Chwefror ac wedyn yn Mawrth!

Ddaru nhw ddim dweud wrtha i bod gen i flwyddyn mor bleserus o mlaen, ond dwi'n gwybod rwan pan bod arna i angen welis.

Cyf.

Emyr Roberts

Diolchiadau ac Apêl

Hoffwn ddiolch i'r bobl ganlynol sydd, yn ystod y flwyddyn wedi gwneud rhoddion i wella ansawdd a chyfforddusrwydd o fewn y tai.;

Des Ainsworth, am ei rodd i brynu gwydrau gwin i Hendy a Nant. Carole Shearman am ei rhodd i'n galluogi i brynu plancedi newydd a ffolderi gwybodaeth ar gyfer bob tŷ. Christine Evans am ei rhodd inni gael prynu 6 par o fenyg popty, 4 gorchudd olew bwrdd a 3 cafietere.

Er mwyn parhau a'r gwelliannau, hoffwn apelio atoch sy'n ad-drefnu eich tai y gwanwyn yma. Rydym yn edrych am lenni plaen, gorchudd gwelyau (sengl a dwbwl) a chwrlidau. Gallwn drefnu eu casglu o fewn Gwynedd. Os y gallwch helpu, cysylltwch â John yn Swyddfa'r Ymddiriedolaeth. Diolch.

Cystadleuaeth Ffotograffig

Fig 6: Enlli o ben y mynydd, llun Esther Roberts

Hoffech chi weld eich ffotograff yn cael ei atgynhyrchu ar gerdyn post?
Ydych chi'n ymweld ag Enlli eleni?..felly peidiwch ag anghofio eich camera.

Mae Ymddiriedolaeth Ynys Enlli yn edrych am hyd at chwech o luniau a dynnwyd ar neu o'r ynys yn ystod y tair blynedd diwethaf a fuasai'n gwneud cerdiau post diddorol neu hynod. Mae'r gystadleuaeth yn agored i aelodau a phob ymwelydd a'r ynys a gellir cyflwyno hyd at dri llun. Rhaid cyflwyno'r ffotograffau mewn fformat digidol ar CD. Cant eu beirniadu gan banel o feirniaid a chyhoeddir yr enillwyr yn Ionawr 2008. Caiff yr ennillydd aros yn ddi- dal ar yr ynys(gan eithrio y prif dymor gwyliau, bwydydd a thâl cludiant cwch - a chaiff yr enillwyr eraill tocyn i fynd ar daith cwch o gwmpas yr ynys. Bydd y lluniau a ddetholir yn cael eu printio ar gardiau post a bydd yr elw o'r gwerthiant yn mynd i Ymddiriedolaeth Ynys Enlli.

Os gwelwch yn dda, cysylltwch a Swyddfa' Ymddiriedolaeth am ffurflen gais.

Cynhyrchwyd yr argraffiad yma o'r Cafn gan Delyth Gordon, Esther Roberts a John Roberts. Diolch i'r oll o'r cyfrannwyr. Os oes gennych erthygl, ysgrifennwch at 'Y Cafn' yn Swyddfa'r Ymddiriedolaeth – gweler y manylion ar dudalen gyntaf y cyhoeddiad hwn.